# Digwyddiadau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid y Gronfa Twf Lleol

## Tabl Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 1

2. Amcanion a Chyd-destun Strategol ........ 1

3. Strwythur Digwyddiad a Chyfranogiad ........ 2

4. Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol ........ 2

5. Cefnogi pobl i gael gwaith a chynyddu eu sgiliau ........ 5

6. Seilwaith ........ 9

7. Model Cyflawni ........ 12


## 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd £547m o gyllid twf lleol ar gael i Lywodraeth Cymru dros dair blynedd rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2029. Ar 7 Tachwedd 2025, lansiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ymgynghoriad cyhoeddus i geisio barn ar gynigion ar gyfer y Gronfa Twf Lleol yng Nghymru. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn sail i'r Cynllun Buddsoddi ar gyfer y Gronfa hon, a fydd yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth y DU.

Nod digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid y Gronfa Twf Lleol oedd cefnogi ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a chasglu barn amrywiaeth eang o randdeiliaid ar gynigion mewn perthynas â'r egwyddorion cyffredinol; y blaenoriaethau a'r amcanion craidd ar gyfer buddsoddi; ac ar sut bydd y gronfa'n cael ei chyflawni.

## 2. Amcanion a Chyd-destun Strategol

Amcan y Gronfa Twf Lleol yw cefnogi twf cynhyrchiant a mynd i'r afael â materion sy'n arwain at anghydraddoldebau economaidd ledled Cymru.

Mae egwyddorion arweiniol y gronfa'n cynnwys canolbwyntio ar ganlyniadau hirdymor, integreiddio â ffrydiau cyllid eraill, a chydweithio ar draws pob haen o lywodraeth a sectorau. Nod y dull gweithredu yw sicrhau'r effaith fwyaf bosibl, osgoi dyblygu, a sicrhau bod buddsoddiadau'n alinio â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Roedd y digwyddiadau ymgysylltu wedi'u strwythuro o amgylch y pedair thema flaenoriaeth, fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori:

- Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol
- Cefnogi pobl i gael gwaith a chynyddu eu sgiliau
- Seilwaith gwyrdd ac effeithlonrwydd ynni
- Seilwaith lleol yn sbarduno economïau rhanbarthol

## 3. Strwythur Digwyddiad a Chyfranogiad

Cynhaliwyd pedwar digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid rhanbarthol ar-lein ym mis Tachwedd 2025. Ar draws y pedwar digwyddiad, roedd dros 200 o randdeiliaid yn bresennol. Yn dilyn trosolwg strategol a chyflwyniad i'r ymgynghoriad, cymerodd y rhai a oedd yn bresennol ran mewn sesiynau grŵp dan arweiniad hwyluswyr arbenigol ar thema o'u dewis, yn ogystal â sesiwn grŵp ychwanegol ar y model cyflawni. Darparwyd cymorth technegol i sicrhau hygyrchedd, ac roedd mecanweithiau adborth ar waith i gasglu mewnbwn cyfranogwyr. Cyfunwyd 'seilwaith gwyrdd ac effeithlonrwydd ynni' a 'seilwaith lleol sy'n sbarduno economïau rhanbarthol', sy'n themâu blaenoriaeth, mewn un ystafell ymneilltuo. Gwahoddwyd cyfranwyr i nodi'r amcanion pwysicaf ym mhob maes blaenoriaeth fel rhan o'r sesiynau ymgysylltu. Nid oedd yr ymarfer blaenoriaethu hwn wedi'i gynllunio i fod yn ystadegol gynrychiadol ond i ddal ciplun dangosol cynnar o farn rhanddeiliaid. Mae'r canlyniadau felly yn cael eu cyflwyno fel rhai sy'n darparu mewnwelediad i flaenoriaethau yn hytrach nag fel mesur meintiol o ddewis.

## 4. Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol

**Themâu Trawsranbarthol**

Codwyd sawl thema gyffredin gan rhanddeiliaid ledled Cymru yn ymwneud â mynediad at gymorth, cydlyniad cyllid, a phwysigrwydd cydbwyso cyfalaf a refeniw, sy'n cael eu hadlewyrchu yn y cyfleoedd a'r heriau isod.

**Cyfleoedd**

Nododd rhanddeiliaid amrywiaeth o gyfleoedd lle gallai'r Gronfa Twf Lleol gryfhau cynhyrchiant a chystadleurwydd busnesau. Thema amlwg oedd cefnogaeth i fodelau cyllid cyfunol, lle mae grantiau a chyllid ad-daladwy yn cydfodoli ac yn cael eu defnyddio mewn gwahanol gyfrannau yn dibynnu ar ba gam o ddatblygu y mae'r busnes arno a'i allu i amsugno risg. Dadleuodd cyfranogwyr y dylid cyfeirio grantiau at arloesi, datblygu cynnar a chamau twf penodol, tra byddai benthyciadau'n fwy priodol lle gall busnesau gynhyrchu enillion yn rhesymol neu lle mae bylchau'n bodoli

yn y farchnad fenthyca fasnachol. Ystyriwyd bod modelau hyblyg, gan gynnwys strwythurau lle mae elfennau grant ynghlwm wrth berfformiad, yn arbennig o fanteisiol i fentrau cymdeithasol a busnesau sy'n gweithredu mewn cymunedau lle mae mynediad at gyllid confensiynol yn dal yn gyfyngedig.

Cyfle arall a nodwyd oedd buddsoddi yn y sgiliau a'r capasiti arwain sydd eu hangen i ategu twf busnes. Ar draws pob rhanbarth, pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd cyngor busnes o ansawdd uchel a mynediad at ddatblygiadau mewn meysydd megis gallu rheoli, mabwysiadu'r digidol a chynllunio'r gweithlu. Ystyriwyd bod cryfhau'r galluoedd hyn yn hanfodol er mwyn helpu cwmnïau i addasu i newid technolegol, ymateb i bwysau'r farchnad a meithrin gwydnwch dros y tymor hir.

Tynnwyd sylw hefyd at wella mynediad i adeiladau busnes addas. Mewn sawl rhan o Gymru - yn enwedig ardaloedd gwledig - cyfeiriodd rhanddeiliaid at brinder mannau deori, cyfleusterau tyfu a seilwaith digidol modern. Mae'r bylchau hyn yn cyfyngu ar allu busnesau i ehangu, mabwysiadu technolegau newydd a denu gweithwyr medrus. Ystyriwyd bod creu amgylcheddau lle gall busnesau ffynnu yn allweddol i gefnogi economïau lleol mwy cynhyrchiol.

Cyfle arall yw gwella'r broses o fapio'r gefnogaeth bresennol a pha mor eglur y caiff ei chyfleu. Roedd rhanddeiliaid yn teimlo y gallai cyfeirio'n well leihau dyblygu, gwella mynediad at adnoddau a sicrhau bod busnesau'n gallu llywio drwy'r dirwedd cymorth yn fwy effeithlon.

**Heriau**

Er gwaethaf y cyfleoedd hyn, nodwyd nifer o heriau yn gyson. Roedd defnyddio cyllid ad-daladwy, er ei fod yn werthfawr i rai busnesau, yn cael ei ystyried yn rhwystr i eraill sydd heb y llif arian, yr eitemau cyfochrog na'r hyder i ysgwyddo dyled. Roedd hyn yn bryder penodol i fusnesau cyfnod cynnar a mentrau cymdeithasol sy'n dibynnu ar fathau hyblyg, amyneddgar o gymorth.

Nododd rhanddeiliaid hefyd fylchau parhaus o ran cyngor busnes, gallu rheoli a sgiliau digidol, sydd i gyd yn cyfyngu ar gynhyrchiant. Mae llawer o fusnesau'n ei chael hi'n anodd canfod a chael gafael ar gymorth sy'n diwallu eu hanghenion, ac mae cyfyngiadau o ran capasiti mewn rhai awdurdodau lleol yn gwaethygu'r heriau hyn. Nodwyd hefyd bod prinder adeiladau addas a chysylltedd digidol yn rhwystr strwythurol, gan lesteirio ehangu busnesau ac arafu'r broses o fabwysiadu technolegau digidol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a lled-wledig.

Roedd her fawr arall yn ymwneud â natur fyrdymor a tameidiog cyllid datblygu economaidd. Disgrifiodd rhanddeiliaid sut mae cylchoedd cyllido annisgwyl yn tanseilio cynllunio hirdymor, yn gwanhau capasiti cyflawni ac yn ei gwneud yn anodd i fusnesau ymrwymo i weithgarwch twf. Roedd y galw am ddulliau symlach amlflwyddyn yn adlewyrchu barn gyffredinol bod sefydlogrwydd a rhagweladwyedd yn hanfodol ar gyfer cefnogi gwelliant parhaus mewn cynhyrchiant.

**Cydbwysedd Cyllid Refeniw a Chyfalaf**

Pwysleisiodd rhanddeiliaid ar draws pob rhanbarth yr angen i baru buddsoddiad cyfalaf â chyllid refeniw digonol. Mynegodd llawer bryder y gallai gor-bwyslais ar wariant cyfalaf anwybyddu'r angen yr un mor bwysig i fuddsoddi mewn pobl, cyngor, sgiliau a datblygu prosiectau. Ystyriwyd bod cyllid refeniw yn hanfodol ar gyfer darparu'r strwythurau cefnogi sy'n ysgogi ac yn rhoi ystyr i fuddsoddiad cyfalaf, gan gynnwys galluogi mentrau cymdeithasol i weithredu'n effeithiol a helpu busnesau i gael mynediad at gyfleusterau neu offer newydd a'u defnyddio. Heb ddarpariaeth ddigonol o ran refeniw, roedd rhanddeiliaid yn dadlau y byddai buddsoddiadau cyfalaf yn ei chael hi'n anodd cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd.

**Blaenoriaethu**

Yn genedlaethol, blaenoriaeth rhanddeiliaid oedd i fynd i'r afael â rhwystrau i dwf busnes, gyda busnesau newydd a chwmnïau deillio hefyd yn derbyn cefnogaeth gref. Ar draws rhanbarthau, daeth mynd i'r afael â rhwystrau i dwf fel y brif flaenoriaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru, tra bod De-orllewin Cymru yn rhoi mwy o bwyslais ar fusnesau newydd a busnesau deillio. Ni chynhaliwyd unrhyw ymarfer pleidleisio yng Ngogledd Cymru.

Safbwyntiau rhanbarthol

**Gogledd Cymru**

Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd creu a chynnal gweithgarwch cychwyn a sicrhau bod busnesau sy'n tyfu yn parhau i fod wedi'u gwreiddio yn y rhanbarth dros y tymor hir. Nododd y cyfranogwyr fod mynediad at gymorth a chyngor busnes yn amrywio ar draws siroedd, gan greu anghydraddoldebau o ran cyfleoedd a chanlyniadau. Ystyriwyd bod mynd i'r afael â'r gwahaniaethau hyn yn flaenoriaeth ar gyfer sicrhau bod y Gronfa Twf Lleol yn cefnogi twf ar draws y rhanbarth cyfan.

**Canolbarth a Gorllewin Cymru**

Tynnodd rhanddeiliaid sylw at heriau a phrinder recriwtio parhaus yn y gweithlu lleol. Pwysleisiwyd bod yn rhaid i gynlluniau datblygu economaidd ystyried realiti demograffig, gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio a phwysigrwydd denu a chadw talent. Tynnodd busnesau gwledig yn y rhanbarth sylw hefyd at arwyddocâd cyfrannu at gyfoeth cymunedol a chyfleoedd lleol, gan awgrymu y dylai'r mathau hyn o werth, er nad ydynt bob amser yn cael eu cynnwys mewn metrigau twf traddodiadol, gael eu hadlewyrchu mewn dulliau gweithredu o ran polisi a chyllido. Pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd diogelu swyddi, nid dim ond creu swyddi, mewn ardaloedd gwledig lle gall heriau recriwtio fygwth hyfywedd busnesau sydd fel arall yn sefydlog.

**De-ddwyrain Cymru**

Mynegodd rhanddeiliaid bryderon am absenoldeb amcan wedi'i fynegi'n glir sy'n ymwneud ag effaith gymdeithasol twf economaidd, gan gynnwys ei oblygiadau ar gyfer ansawdd bywyd a phenderfynyddion ehangach o ran llesiant. Ystyriwyd bod amrywioldeb o ran capasiti ac adnoddau ar draws awdurdodau lleol yn risg i gyflawni cyson, yn enwedig o ystyried yr angen am eglurder o ran ffocws cyllido a hyblygrwydd i deilwra cymorth i amgylchiadau lleol. Tynnwyd sylw at y diffyg eglurder ynghylch allbynnau a chanlyniadau'r gronfa fel rhwystr i gynllunio effeithiol, ochr yn ochr â beirniadaeth o'r rhaniad 70/30 rhwng refeniw a chyfalaf yn seiliedig ar brofiadau'r gorffennol o orfuddsoddi mewn seilwaith ffisegol. Mynegodd rhanddeiliaid bryder hefyd ynghylch amseriad penderfyniadau cyllido, gan nodi'r risg o ddileu swyddi a llai o gapasiti cyflawni os na ddarperir sicrwydd yn fuan. Ystyriwyd bod yr amserlen gywasgedig yn rhwystr sylweddol i gydweithio effeithiol, yn enwedig o ystyried gwahanol gyd-destunau awdurdodau lleol a rôl newydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Rhybuddiwyd rhag canolbwyntio gormod ar fuddsoddi ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, a allai gyfyngu ar ledaeniad manteision i rannau eraill o'r rhanbarth.

**De-orllewin Cymru**

Rhoddodd rhanddeiliaid pwyslais penodol ar gefnogi mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol, gan nodi eu rôl o ran mynd i'r afael â bylchau mewn cyflenwyr a chryfhau gwydnwch lleol. Roedd partneriaethau rhwng sefydliadau addysg uwch a diwydiant yn cael eu gweld fel cyfleoedd i leihau dyblygu a gwella cost effeithiolrwydd o ran ymchwil a datblygu. Disgrifiodd rhanddeiliaid hefyd bwysigrwydd cymorth wedi'i deilwra a chyllid sbarduno ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, gan gydnabod bod hyder a rhwystrau o ran adnoddau yn aml yn rhwystro cyfranogiad mewn gweithgarwch dechrau busnes. Roedd cefnogaeth i fabwysiadu dull cenedlaethol o gael mynediad at gyllid, gan adeiladu ar rôl Banc Datblygu Cymru, ond mynegodd cyfranogwyr bryder hefyd ynghylch cadw lleoliaeth yn ddiogel wrth i strwythurau llywodraethu rhanbarthol esblygu. Yn olaf, nododd rhanddeiliaid fod cyflawni prosiectau cyfalaf o fewn cyfnod o ddwy flynedd yn heriol i fentrau cymdeithasol a sefydliadau cymunedol nad oes ganddynt yr adnoddau ar gyfer y gwaith o gynllunio a pharatoi.

## 5. Cefnogi pobl i gael gwaith a chynyddu eu sgiliau

**Themâu Trawsranbarthol**

Nododd rhanddeiliaid nifer o faterion a oedd yn gyffredin ar draws rhanbarthau, yn enwedig o ran alinio darpariaeth ag anghenion cyflogwyr a mynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad; mae'r rhain yn cael eu dwyn ymlaen i'r cyfleoedd a'r heriau sy'n dilyn.

**Cyfleoedd**

Ar draws pob rhanbarth, gwelodd rhanddeiliaid gyfle sylweddol i gryfhau rhaglenni sgiliau sy'n ymateb i'r galw gan gyflogwyr. Fe wnaethant bwysleisio pwysigrwydd creu llwybrau sector-benodol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau rhanbarthol ac yn helpu i baratoi pobl ar gyfer cyflogaeth gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys llwybrau strwythuredig i rolau technegol a galwedigaethol, yn ogystal â sgiliau cyflogadwyedd meddal sy'n sail i barodrwydd yn y gweithle. Ystyriwyd bod cryfhau'r cydweithio rhwng cyflogwyr a darparwyr yn ffordd o wella perthnasedd y ddarpariaeth ar yr un pryd â sicrhau nad yw busnesau'n cael eu llethu gan ymgysylltiad dyblyg o nifer o raglenni.

Gwelodd rhanddeiliaid hefyd cyfleoedd i ddylunio rhaglenni mwy cyfannol a hyblyg sy'n cysylltu gwahanol elfennau o ddarpariaeth, gan alluogi pobl i symud rhwng gwasanaethau'n haws a sicrhau bod hyfforddiant yn adlewyrchu realiti bywydau cyfranogwyr. Ystyriwyd bod dulliau wedi'u teilwra'n lleol yn bwysig ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion amrywiol cymunedau, yn enwedig lle mae natur wledig, anfantais neu newid mewn economïau lleol yn cyflwyno heriau penodol. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn cydnabod cyfleoedd ar gyfer arloesi, yn enwedig o ran creu canolfannau neu fannau a rennir lle mae nifer o bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cymorth cyflogadwyedd a sgiliau integredig. Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr yn annog dulliau gweithredu sydd nid yn unig yn adlewyrchu anghenion presennol y farchnad lafur ond sy'n rhagweld cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.

**Heriau**

Er gwaethaf y cyfleoedd hyn, nododd rhanddeiliaid nifer o heriau y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau cyflawni effeithiol. Nodwyd graddfa anweithgarwch economaidd a chynnydd mewn diweithdra ymysg pobl ifanc ar draws pob rhanbarth, gydag iechyd meddwl a gwendidau ehangach yn aml yn cael eu nodi fel ffactorau cyfrannol. Dadleuodd rhanddeiliaid bod angen ymyrraeth gynnar a chyson i atal pobl ifanc rhag ymddieithrio o addysg a gwaith, gan awgrymu bod yn rhaid i gymorth ddechrau cyn 16 oed er mwyn hwyluso'r broses o bontio i lwybrau ôl-16.

Roedd her arall a oedd yn codi dro ar ôl tro yn ymwneud ag anghydraddoldebau daearyddol. Mae ardaloedd gwledig yn wynebu costau cyflawni uwch, trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig a phroblemau gyda chysylltedd digidol sy'n ei gwneud hi'n anoddach cael gafael ar hyfforddiant a chyflogaeth. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at fylchau sectoraidd mewn cefnogaeth, gan nodi, er bod amaethyddiaeth yn cael ei gwasanaethu'n dda, bod sectorau eraill ar y tir megis diwydiannau coedwigaeth, pysgodfeydd a cheffylau yn aml heb ddarpariaeth briodol. Er eu bod yn cael eu cydnabod fel blaenoriaeth yn y dyfodol, disgrifiwyd sgiliau gwyrdd sy'n dod i'r amlwg fel rhai sydd wedi'u rhannu'n dameidiog ar draws gwahanol fentrau.

Mae rhwystrau gweinyddol a biwrocrataidd hefyd yn creu anawsterau ymarferol. Mae'r gofynion i sefydliadau gynnal swyddfeydd ffisegol mewn rhai siroedd, er enghraifft, yn cyfyngu ar y gallu i ddarparu rhaglenni'n effeithlon ar draws nifer o ardaloedd. Mae

cylchoedd cyllido byr yn cyfyngu ymhellach ar barhad cymorth ac yn cyfyngu ar allu darparwyr i gadw staff profiadol. Mynegodd rhanddeiliaid bryder y gellid colli ymyriadau llwyddiannus heb gyllid mwy parhaus a gallai ansawdd y ddarpariaeth yn y dyfodol cael ei leihau.

**Cydbwysedd Cyllid Refeniw a Chyfalaf**

Tynnodd rhanddeiliaid ar draws pob rhanbarth sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig â'r newid o gyllid sy'n drwm ar refeniw i gyllid sy'n drwm ar gyfalaf. Roedd cyllid refeniw yn cael ei ystyried yn hanfodol ar gyfer cynnal rhaglenni hyfforddi, cymorth cyflogadwyedd a'r staff sy'n eu darparu. Nododd y cyfranogwyr y gallai buddsoddiadau cyfalaf, megis offer neu gyfleusterau, alluogi cyflawni ond na allant gymryd lle'r refeniw sydd ei angen i gynnal rhaglenni, darparu cymorth personol a meithrin perthynas â chyflogwyr. Pwysleisiwyd dro ar ôl tro yr angen am gylchoedd cyllido hirach a mwy o sicrwydd, gyda rhanddeiliaid yn dadlau bod parhad yn hanfodol ar gyfer cynllunio, olyniaeth a sicrhau ansawdd. Fe wnaethant rybuddio y gallai effeithiolrwydd y ddarpariaeth sgiliau a chyflogadwyedd gael ei danseilio'n sylweddol heb ddull gweithredu mwy cytbwys rhwng cyfalaf a refeniw.

**Blaenoriaethu**

Yn genedlaethol, roedd rhanddeiliaid yn blaenoriaethu'n gryf i leihau anweithgarwch economaidd. Roedd y pwyslais hwn yn arbennig o amlwg yn Ne-ddwyrain a De-orllewin Cymru. Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, roedd blaenoriaethau yn fwy cyfartal, gyda phwysau tebyg yn cael eu rhoi i leihau anweithgarwch a gwella sgiliau. Gwrthgyferbyniad a hyn, rhoddodd Gogledd Cymru fwy o bwyslais ar gymorth sgiliau galw, gydag anweithgarwch economaidd yn flaenoriaeth eilaidd.

<u>Safbwyntiau rhanbarthol</u>

**Gogledd Cymru**

Tynnodd rhanddeiliaid yng Ngogledd Cymru sylw at yr angen am gymorth wedi'i dargedu ar gyfer pobl ifanc ac unigolion agored i niwed, gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau mynediad cyfartal i'r rhai hynny sydd wedi wynebu cam-fanteisio neu orfodaeth i ymddygiad troseddol. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod gwerth ymgysylltu'n gynnar â diwydiant ond yn cydnabod yr heriau ymarferol o ymgorffori prosiectau'r byd go iawn yng nghwricwla ysgolion. Roeddent hefyd yn nodi pwysigrwydd llwybrau creadigol ac anhraddodiadol, yn enwedig i unigolion sy'n ddi-waith yn hirdymor ac sy'n chwilio am yrfaoedd yn y sectorau creadigol. Cyfeiriwyd at sgiliau treftadaeth fel llwyddiant rhanbarthol, gyda galwadau am fuddsoddiad parhaus mewn rhaglenni a chyfleusterau angenrheidiol. Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu llwybrau cynnydd rhanbarthol sy'n cysylltu gweithgarwch lleol â darpariaeth lefel uwch, ac roeddent yn awgrymu y gallai canolfannau sgiliau a rennir dod â phartneriaid at ei gilydd mewn ffyrdd mwy effeithiol. Er bod rhanddeiliaid yn

gweld potensial ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf mewn offer a meddalwedd, roeddent yn nodi bod yn rhaid i'r rhain gael eu hategu gan gyllid refeniw digonol i gynnal y gwasanaethau hyfforddi a chefnogi cysylltiedig.

**Canolbarth a Gorllewin Cymru**

Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, disgrifiodd rhanddeiliaid ranbarth â blaenoriaethau gwahanol: rhoddodd rhai pwyslais ar leihau anweithgarwch economaidd, tra bod eraill yn canolbwyntio ar godi sgiliau a chymwysterau i ddiwallu anghenion prosiectau rhanbarthol mawr megis bargeinion twf a buddsoddiadau ynni adnewyddadwy. Tynnodd y cyfranogwyr sylw at yr angen i ategu, yn hytrach na dyblygu, darpariaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau, gan ddadlau y byddai aliniad yn lleihau dryswch i gyfranogwyr a chyflogwyr. Mae natur wledig yn cyflwyno heriau sylweddol, gan gynnwys costau cyflawni uchel, trafnidiaeth gyfyngedig a chyfyngiadau cynllunio ar gyfer prosiectau cyfalaf. Nododd rhanddeiliaid hefyd fylchau sectoraidd yn y sectorau coedwigaeth, pysgodfeydd a cheffylau, a disgrifiwyd sgiliau gwyrdd ganddynt fel maes angen sy'n dod i'r amlwg ac sy'n gofyn am gynllunio mwy cydlynol. Mynegodd cyflogwyr ddiddordeb clir mewn profiad gwaith strwythuredig ac ymyrraeth gynnar i bobl ifanc. Oherwydd cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer prosiectau cyfalaf a natur ddwys allgymorth mewn cymunedau gwasgaredig, mynegodd rhanddeiliaid ffafriaeth gref am gyllid refeniw i gefnogi'r gwaith parhaus o gyflawni.

**De-ddwyrain Cymru**

Yn Ne-ddwyrain Cymru, mynegodd rhanddeiliaid bryderon sylweddol ynghylch graddfa diweithdra ymysg pobl ifanc a'r cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n hawlio budd-daliadau ers 2020. Nodwyd yn aml fod iechyd meddwl yn rhwystr cysylltiedig i gyflogaeth. Pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd ymyrraeth gynnar, yn enwedig cyn troi'n un ar bymtheg oed, i helpu pobl ifanc i bontio'n fwy effeithiol i addysg a chyflogaeth ôl-16. Tynnodd rhanddeiliaid sylw hefyd at faterion sy'n ymwneud â chadw graddedigion, gyda dod â rhaglenni megis Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Ariannol Cymru i ben yn cael ei ystyried yn risg i gadw unigolion medrus yn y rhanbarth. Er y nodwyd bod canlyniadau cryf gan Twf Swyddi Cymru, cyfeiriodd rhanddeiliaid at gyfyngiadau capasiti sy'n cyfyngu ar ei gyrhaeddiad. Pwysleisiwyd yr angen ganddynt am well aliniad â sefydliadau iechyd, yn enwedig ar gyfer ymyriadau cadw gwaith sy'n canolbwyntio ar gyflogwyr. Roedd galw am gyllid a chydlynu canolog i osgoi oedi a dryswch, a thynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd cymorth i deuluoedd a gofalwyr wrth feithrin sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol yn y cartref. Canmolwyd mentrau cymdeithasol am gynnig cyfleoedd cyflogaeth wedi'u teilwra i'r rhai hynny sydd ag anableddau dysgu ac anfanteision eraill, gan atgyfnerthu eu pwysigrwydd o ran creu marchnad lafur gynhwysol.

**De-orllewin Cymru**

Pwysleisiodd rhanddeiliaid yn Ne-orllewin Cymru yr angen i gefnogi pobl ifanc sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur, gan nodi achosion newidiol anweithgarwch

economaidd, gan gynnwys heriau iechyd meddwl, gorbryder ac anghenion dysgu ychwanegol. Fe wnaethant dynnu sylw at y cyfraddau cynnal cyflogaeth cryf o leoliadau â thâl a ariennir drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ond roeddent yn mynegi pryderon ynghylch cost uchel a chynaliadwyedd hirdymor yr ymyriadau hyn. Ystyriwyd bod interniaethau â chymorth a modelau cyflogaeth dwys eraill yn effeithiol i bobl anabl a'r rhai hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ond fe'u disgrifiwyd fel rhai sy'n drwm ar adnoddau ac yn agored i fylchau cyllido. Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd cymorth ymarferol ar gyfer recriwtio, gan gynnwys help i lywio drwy brosesau, eirioli dros addasiadau rhesymol a chefnogi cyflogwyr llai. Roedd cefnogaeth gref i gylchoedd cyllido hirach i sicrhau sefydlogrwydd, cynllunio olyniaeth a gwella ansawdd gwasanaethau. Yn olaf, pwysleisiodd y cyfranogwyr yr angen am ddull aml-lefel sy'n cyfuno gwybodaeth leol ac ymyriadau wedi'u teilwra gyda chydlynu rhanbarthol drwy gyflogwyr angor a goruchwyliaeth strategol genedlaethol, gan sicrhau cydlyniad heb orfodi modelau anhyblyg.

## 6. Seilwaith

**Themâu Trawsranbarthol**

Ledled Cymru, pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen am gyflawni dan arweiniad y gymuned, cefnogaeth dechnegol gryfach a buddsoddiad sy'n alinio â gwydnwch hirdymor; mae'r blaenoriaethau cyffredin hyn yn sail i'r cyfleoedd a'r heriau a amlinellir isod.

**Cyfleoedd**

Ar draws pob rhanbarth, nododd rhanddeiliaid gyfleoedd i gryfhau effaith a chydlyniant buddsoddi mewn seilwaith. Gwelodd llawer gwerth sylweddol mewn dulliau gweithredu wedi'u harwain gan y gymuned, y teimlwyd eu bod mewn sefyllfa well i nodi blaenoriaethau lleol, ysgogi cefnogaeth a chyflawni prosiectau sydd â manteision amlwg. Ystyriwyd bod cryfhau cymorth cynghori a thechnegol yn hanfodol er mwyn galluogi'r grwpiau hyn i lywio drwy brosesau cymhleth, datblygu cynigion hyfyw a chynyddu effaith buddsoddiad. Roedd gweithdrefnau caffael symlach a chanllawiau cliriach hefyd yn cael eu hystyried yn allweddol i wella hygyrchedd ac effeithlonrwydd cyflawni cyllid.

Pwysleisiodd y cyfranogwyr y cyfle i alinio seilwaith yn well â chryfderau economaidd rhanbarthol, gan sicrhau bod buddsoddiad yn ategu diwydiannau sefydledig a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg. Roedd hyn yn cynnwys adeiladu ar asedau twristiaeth, amaethyddiaeth a diwydiannau gwyrdd, ac integreiddio prosiectau â strategaethau lleol a rhanbarthol i hyrwyddo datblygiad economaidd cydlynol. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn gweld cyfle clir i ddylunio seilwaith sy'n gwella cadernid amgylcheddol ac yn diogelu asedau treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Roedd dylunio gwydn a

chynaliadwyedd hirdymor yn themâu cryf mewn trafodaethau ynghylch sut y dylid targedu'r gronfa.

Roedd sicrhau bod buddsoddiad yn cefnogi cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli yn faes arall o gyfle. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y potensial i raglenni seilwaith hyrwyddo cyfranogiad cynhwysol ac ysgogi cyfranogiad gan grwpiau a allai fel arall gael eu heithrio o fodelau buddsoddi traddodiadol.

**Heriau**

Er gwaethaf y cyfleoedd hyn, cododd rhanddeiliaid nifer o heriau a allai gyfyngu ar effeithiolrwydd buddsoddi mewn seilwaith. Cyfeiriwyd yn aml at gyfyngiadau cynllunio a gofynion rheoleiddio fel rhwystrau rhag cyflawni amserol. Disgrifiodd llawer o'r cyfranogwyr gymhlethdod llywio drwy brosesau cynllunio, gan nodi y gall y materion hyn fod yn arbennig o ddifrifol mewn ardaloedd gwledig lle mae capasiti staff yn gyfyngedig. Nodwyd prinder contractwyr a chrefftwyr medrus hefyd fel cyfyngiadau, a allai arafu'r gwaith o gyflawni prosiectau a chwyddo costau yn ystod cyfnodau o alw mawr.

Tynnodd rhanddeiliaid sylw hefyd at yr anawsterau sy'n wynebu busnesau bach a chanolig a sefydliadau trydydd sector o ran cael mynediad at gyllid. Codwyd materion yn ymwneud â chyfathrebu ac eglurder ffrydiau cyllido dro ar ôl tro, gyda chyfranogwyr yn mynegi pryder am y risg o ddryswch a dyblygu mewn tirwedd lle mae nifer o raglenni ac asiantaethau'n gweithredu ar yr un pryd. Roedd anghydbwysedd daearyddol o ran dyrannu adnoddau yn thema amlwg arall, gyda rhanddeiliaid yn galw am ddosbarthiad teg i sicrhau bod pob cymuned yn cael cyfle i elwa.

**Cydbwysedd Cyllid Refeniw a Chyfalaf**

Ar draws y rhanbarthau, roedd rhanddeiliaid yn codi pryderon yn gyson am yr heriau a achosir gan fodel cyllido sy'n drwm ar gyfalaf. Nododd y cyfranogwyr, er bod buddsoddiad cyfalaf yn hanfodol ar gyfer darparu seilwaith, bod cyllid refeniw annigonol yn ei gwneud yn anodd cefnogi datblygiad prosiectau cam cynnar, astudiaethau dichonoldeb, a chynaliadwyedd parhaus mentrau sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Roedd galw eang am gyllid mwy cytbwys sy'n galluogi cymunedau ac awdurdodau lleol i ddatblygu cynigion cadarn, cynnal asedau a gwreiddio effaith hirdymor. Heb refeniw digonol, dadleuodd llawer o randdeiliaid, y byddai rhaglenni sy'n canolbwyntio ar gyfalaf mewn perygl o gyflawni prosiectau na ellir eu gwireddu na'u cynnal yn llawn.

**Blaenoriaethu**

Yn genedlaethol, blaenoriaethwyd rhanddeiliaid buddsoddiad mewn seilwaith economaidd lleol, ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel, a safleoedd ac adeiladau allweddol. Yn bennaf bu blaenoriaethau rhanbarthol cyd-fynd â'r patrwm hwn, ond gyda rhywfaint o amrywiaeth: rhoddodd Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru bwyslais arbennig ar seilwaith ac ynni carbon isel, dangosodd De-ddwyrain

Cymru ledaeniad mwy cyfartal o flaenoriaethau, a chanolbwyntiodd De-orllewin Cymru yn gryfach ar safleoedd ac adeiladau allweddol ochr yn ochr ag ynni adnewyddadwy.

<u>Safbwyntiau rhanbarthol</u>

### Gogledd Cymru

Yng Ngogledd Cymru, rhoddodd rhanddeiliaid blaenoriaeth i seilwaith sy'n adeiladu ar gryfderau'r rhanbarth, yn enwedig ym maes twristiaeth treftadaeth. Mae'r seilwaith presennol sy'n cefnogi'r sector hwn yn cynnig cyfleoedd i gael effaith ar unwaith o fewn y cyfnod cyllido o dair blynedd. Ystyriwyd effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd yn flaenoriaethau brys hefyd, gyda rhanddeiliaid yn nodi bod y meysydd hyn yn cynnig prosiectau ymarferol y gellir eu cyflawni y gellir eu rhoi ar waith yn gyflym. Ystyriwyd bod cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn fwy dibynnol ar gefnogaeth gymunedol a digon o gyllid refeniw i ategu buddsoddiad cyfalaf. Tynnodd rhanddeiliaid sylw hefyd at bwysigrwydd defnyddio rhaglenni presennol, megis Trawsnewid Trefi, i sicrhau cysondeb a chynyddu gwerth. Codwyd pryderon ynghylch cwmpas y gronfa mewn perthynas â seilwaith grid ar raddfa fawr, gyda chyfranogwyr yn awgrymu y gallai fod yn well mynd i'r afael â'r materion hyn drwy fecanweithiau cenedlaethol neu ar lefel y DU.

### Canolbarth a Gorllewin Cymru

Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, nododd rhanddeiliaid mai seilwaith, cysylltedd trafnidiaeth ac asedau cymunedol oedd y prif flaenoriaethau ar gyfer adeiladu cymunedau cynaliadwy. Mae natur wledig a chostau datblygu uchel y rhanbarth yn golygu bod trafnidiaeth gyhoeddus a chysylltedd digidol yn arbennig o bwysig ar gyfer gwella mynediad a galluogi cyfranogiad economaidd. Pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen i integreiddio buddsoddiad mewn seilwaith â chryfderau economaidd rhanbarthol, gan gynnwys amaethyddiaeth a thwristiaeth, er mwyn sicrhau bod manteision yn cael eu teimlo ar draws y rhanbarth. Nodwyd bod hydrogen yn ffynhonnell ynni'r dyfodol sydd â photensial sylweddol, gyda galwadau am ddatblygu canolfan hydrogen i gefnogi datgarboneiddio ym maes trafnidiaeth ac amaethyddiaeth. Nododd y cyfranogwyr hefyd ofynion sylweddol y sectorau amaethyddiaeth a ffermio o ran ynni a phwysigrwydd mentrau sy'n cefnogi datgarboneiddio a'r economi gylchol. Ar ben hynny, roedd meysydd profi rhanbarthol ar gyfer technolegau cynhyrchu pŵer newydd yn cael eu hystyried yn gyfleoedd gwerthfawr i gefnogi arloesedd ac i alinio ag amcanion carbon isel ehangach. Pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen i Lywodraeth Cymru chwarae rôl gydlynol, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio hirdymor ar gyfer seilwaith trawsyrru a dosbarthu.

**De-ddwyrain Cymru**

Roedd rhanddeiliaid yn Ne-ddwyrain Cymru yn canolbwyntio'n gryf ar gefnogi diwydiannau gwyrdd fel ffordd o greu swyddi a gwella canlyniadau amgylcheddol ac iechyd. Fe wnaethant dynnu sylw at yr effeithiau cadarnhaol sydd eisoes wedi'u cyflawni drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan gynnwys gosodiadau ynni glân mewn canolfannau cymunedol a busnesau. Fodd bynnag, nodwyd bod cynllunio ar gyfer prosiectau ôl-osod tai yn heriol oherwydd cystadleuaeth am grefftwyr medrus a phwysau ar gadwyni cyflenwi. Mynegodd cyfranogwyr bryderon hefyd ynghylch dealltwriaeth a chefnogaeth y cyhoedd i fodelau rhanberchnogaeth mewn ynni adnewyddadwy, gan nodi y byddai cyfathrebu ac ymgysylltu clir yn hanfodol i sicrhau ymrwymiad. Tynnwyd sylw hefyd at anghydbwysedd daearyddol o ran cyllid teithio llesol a thrafnidiaeth, gyda rhanddeiliaid yn galw am ddosbarthu buddsoddiad yn fwy cyfartal ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Er eu bod yn cydnabod yr angen i nodi prosiectau sy'n barod i fynd o fewn yr amserlen o dair blynedd, pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd cynnal persbectif hirdymor i sicrhau cynaliadwyedd buddsoddiadau mewn seilwaith.

**De-orllewin Cymru**

Yn Ne-orllewin Cymru, rhannwyd blaenoriaethau rhanddeiliaid rhwng cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni, gan ganolbwyntio'n gryf ar brosiectau sy'n integreiddio ôl-osod ynni, trafnidiaeth a thai. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd alinio cyllid â strategaethau rhanbarthol presennol ac osgoi dyblygu â buddsoddiad sector preifat neu fuddsoddiad cyhoeddus arall. Nodwyd bylchau mewn cyllid o ran prosiectau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned, gyda chyfranogwyr yn awgrymu y gallai symiau bach o gymorth wedi'i dargedu galluogi'r cynlluniau hyn i symud ymlaen. Codwyd pryderon ynghylch yr heriau a achosir gan fodel cyllido sy'n drwm ar gyfalaf, yn enwedig mewn perthynas â rhaglenni datblygu sgiliau a chyflogadwyedd sy'n gofyn am gyllid refeniw parhaus. Yn olaf, galwodd rhanddeiliaid am fwy o hyblygrwydd wrth reoli prosiectau er mwyn mynd i'r afael ag oedi ac addasu i heriau sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal â'r gallu i ailddyrannu cyllid o fewn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl.

## 7. Model Cyflawni

**Themâu Trawsranbarthol**

Cododd rhanddeiliaid nifer o themâu'n gyson ar draws rhanbarthau ynghylch eglurder rolau, hyblygrwydd a chydweithio; mae'r pwyntiau cyffredin hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y cyfleoedd a'r heriau a nodir isod.

**Cyfleoedd**

Roedd rhanddeiliaid yn gweld cyfleoedd clir i gryfhau'r model cyflawni drwy nodi rolau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wedi'u diffinio'n dda. Ystyriwyd bod mwy o eglurder yn ffordd o leihau dyblygu, gwella atebolrwydd a chefnogi cynllunio mwy cydlynol ar draws partneriaid.

Roedd cefnogaeth gref i alluogi hyblygrwydd o fewn strwythurau rhanbarthol a lleol, gan ganiatáu i ardaloedd deilwra trefniadau cyflawni i'w cyd-destunau penodol yn hytrach na dilyn templedi cenedlaethol rhagnodol. Tynnodd rhanddeiliaid sylw hefyd at werth adeiladu ar bartneriaethau presennol a dysgu ar y cyd, gyda chyfleoedd i wella aliniad ac efelychu dulliau llwyddiannus ar draws rhanbarthau.

Cyfle arall oedd datganoli mwy o gyfrifoldebau i awdurdodau lleol, wedi'i ategu gan oruchwyliaeth gymesur. Ystyriwyd hyn gan rai fel llwybr at gyflawni sy'n gyflymach ac yn fwy ymatebol. Pwysleisiodd rhanddeiliaid hefyd bwysigrwydd systemau monitro a gwerthuso sy'n ymarferol ac yn gymesur, gan ddefnyddio mecanweithiau presennol yn hytrach na chyflwyno beichiau gweinyddol newydd.

**Heriau**

Er gwaethaf y cyfleoedd ar gyfer model cyflawni mwy cydlynol ac ymatebol, nododd rhanddeiliaid nifer o heriau y bydd angen mynd i'r afael â nhw. Codwyd pryderon ynghylch y methodolegau a ddefnyddir i ddyrannu cyllid, yn enwedig y potensial i ardaloedd gwledig fod dan anfantais oni bai fod dyraniadau'n seiliedig ar angen. Rhybuddiodd cyfranogwyr hefyd am y risgiau sy'n gysylltiedig â chylchoedd ariannu tymor byr, sy'n cynnwys colli capasiti sefydliadol ac erydiad arbenigedd pan ddaw rhaglenni i ben yn sydyn. Fe wnaethant bwysleisio pwysigrwydd deialog gynnar a pharhaus i liniaru'r risgiau hyn, gan nodi bod cynllunio'n ofalus ar gyfer pontio yn hanfodol er mwyn cynnal parhad rhwng cylchoedd cyllido.

Wrth wraidd yr heriau hyn roedd cydnabyddiaeth gyffredin bod effeithiolrwydd y model cyflawni yn dibynnu'n drwm ar allu sefydliadau sy'n ymwneud â gweithredu. Dadleuodd rhanddeiliaid y gallai partneriaid cyflawni ei chael hi'n anodd meithrin a chadw'r gallu sydd ei angen i gefnogi rhaglenni buddsoddi uchelgeisiol heb ddigon o adnoddau, amser ac eglurder. Felly, ystyriwyd bod sicrhau bod y model cyflawni yn realistig, yn meddu ar adnoddau digonol ac yn sensitif i'r cyd-destunau amrywiol ledled Cymru yn hanfodol.

<u>Safbwyntiau rhanbarthol</u>

**Gogledd Cymru**

Pwysleisiodd rhanddeiliaid yng Ngogledd Cymru bwysigrwydd adeiladu ar strwythurau presennol, megis Bargeinion Dinesig a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn hytrach na chreu haenau ychwanegol o gymhlethdod. Fe wnaethant bwysleisio'r angen am fodel

cyflawni sy'n addasu i amrywiaeth ranbarthol ar yr un pryd â darparu cydlyniaeth ar draws siroedd. Roedd amserlenni ar gyfer cyflawni yn bryder penodol, gyda chyfranogwyr yn nodi bod cyfnodau cyflawni byr yn ei gwneud yn anodd datblygu prosiectau cadarn a bod angen hyblygrwydd i alluogi prosiectau i esblygu heb gosb. Roedd symud tuag at ddyraniad cyllid rhanbarthol yn hytrach na chystadleuol yn cael ei gydnabod fel cam cadarnhaol, ond nododd rhanddeiliaid y bydd angen cydweithio cryf ar draws awdurdodau lleol i reoli pwysau gwleidyddol a sicrhau bod manteision rhanbarthol yn cael eu cydbwyso'n deg.

Bu'r rhanddeiliaid hefyd trafod y meini prawf ar gyfer asesu'r cyflawni a'r monitro, gan eirioli dros symlrwydd a chynnwys cynaliadwyedd, arloesi a chynhwysiant. Fe wnaethant ddadlau y gallai allbynnau cynyddrannol fod yn fwy realistig o fewn cyfnodau rhaglen byrrach. Codwyd pryderon ynghylch parodrwydd a chapasiti Cyd-bwyllgorau Corfforedig, yn enwedig o ran eu gallu i gefnogi rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau, a phwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen am gynrychiolaeth effeithiol, tryloywder a meithrin gallu wedi'i dargedu. Ystyriwyd bod y trydydd sector yn ganolog i gyflawni effeithiol, a rhybuddiodd cyfranogwyr yn erbyn cylchoedd cyllido tameidiog neu dymor byr sy'n tanseilio ei rôl. Yn olaf, tynnodd rhanddeiliaid sylw at yr her o gydbwyso'r angen i gefnogi prosiectau llai sy'n bwysig yn lleol â'r awydd i greu effaith ar raddfa genedlaethol.

### Canolbarth a Gorllewin Cymru

Tynnodd rhanddeiliaid yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru sylw at werth partneriaethau presennol a threfniadau gweithio rhanbarthol, gan nodi bod llwyddiant y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y rhanbarth wedi'i wreiddio mewn cydweithio cryf a gwahaniaethu clir rhwng blaenoriaethau lleol a rhanbarthol. Fodd bynnag, roedd amseroedd paratoi byr yn cael eu hystyried yn rhwystr sylweddol i gynllunio a meithrin gallu, gyda galwadau am gyfnodau paratoi hirach ac eglurder cynharach ynghylch cyllid. Mynegodd rhanddeiliaid bryder y byddai prosiectau cyfalaf a refeniw mewn perygl o gael eu tanseilio oni bai eu bod yn cael rhybudd digonol.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o raglenni blaenorol, gyda chyfranogwyr yn nodi'r angen i osgoi ailddyfeisio diangen ac yn hytrach defnyddio arferion da sefydledig. Codwyd heriau yn ymwneud â ffioedd rheoli, staffio a sgiliau, yn enwedig yn ystod cyfnodau pontio. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod yn rhaid i raglenni cenedlaethol allu addasu i amgylchiadau rhanbarthol a lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae costau cyflawni a heriau logistaidd yn uwch. Fe wnaethant hefyd dynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltiad ystyrlon â'r sector preifat, gan gydnabod bod cyfyngiadau capasiti mewn rhanbarthau llai poblog yn gallu ei gwneud hi'n anoddach ymgysylltu'n gyson.

### De-orllewin Cymru

Yn Ne-orllewin Cymru, trafododd rhanddeiliaid yr angen i gydbwyso fframweithiau cenedlaethol ag ymreolaeth ranbarthol, gan rybuddio y gall ystyriaethau gwleidyddol

gymhlethu cynllunio a dargyfeirio ffocws oddi wrth flaenoriaethau rhanbarthol. Rhoddwyd lle amlwg i fonitro a gwerthuso mewn trafodaethau, gyda rhanddeiliaid yn galw am ddiffiniadau a safonau cyson ledled Cymru. Roedd cefnogaeth i sefydlu grŵp cenedlaethol i rannu arferion gorau, cysoni dulliau monitro a darparu canllawiau strategol.

Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod cyflawni effeithiol yn gofyn am gyfranogiad gan y trydydd sector, y byd academaidd a phartneriaid yn y sector preifat, yn enwedig o ran cefnogi arloesedd a sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu hadlewyrchu mewn cynllunio rhanbarthol. Nododd llawer fod lefel y penderfyniad lleol a ganiateir o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn galluogi ymatebion cyflym i faterion sy'n dod i'r amlwg, a mynegwyd gobaith y byddai modelau'r dyfodol yn cadw'r ystwythder hwn. Trafodwyd gwersi o raglenni Ewropeaidd blaenorol hefyd, gyda galwadau i'r rhain gael eu gwreiddio yn natblygiad Cyd-bwyllgorau Corfforedig a strwythurau llywodraethu rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg. Nododd rhanddeiliaid y gall y rhaniad rhwng refeniw a chyfalaf a hyd byr rhaglenni gyfyngu ar y gallu i gynllunio ar gyfer canlyniadau hirdymor ac addasu i amgylchiadau sy'n newid. Yn olaf, pwysleisiodd cyfranogwyr fod yn rhaid i asesiadau gwerth am arian gydnabod natur hirdymor canlyniadau mewn ardaloedd gwledig ac ystyried manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach buddsoddi.

**De-ddwyrain Cymru**

Mynegodd rhanddeiliaid yn Ne-ddwyrain Cymru bryderon am gymhlethdod llywio drwy nifer o haenau llywodraethu, yn enwedig wrth gyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Fe wnaethant nodi'r risg y gallai awdurdodau lleol llai bod â llai o ddylanwad o fewn y strwythurau hyn a thynnwyd sylw at yr angen i sicrhau cynrychiolaeth deg wrth wneud penderfyniadau. Mynegodd y cyfranogwyr bryder y gallai prosesau ymgeisio beichus atal busnesau llai a grwpiau lleol rhag cymryd rhan, ac roeddent yn eiriol dros ddefnyddio systemau sydd wedi hen ennill eu plwyf, megis Busnes Cymru, i symleiddio mynediad.

Tynnwyd sylw at yr angen am linell sylfaen genedlaethol glir o gymorth, ynghyd â hyblygrwydd ar gyfer teilwra rhanbarthol a lleol, fel elfen ganolog o gyflawni effeithiol. Galwodd rhanddeiliaid am esboniad cliriach o rolau a chyfrifoldebau ar draws gwahanol lefelau o lywodraeth. Codwyd pryderon y gallai dyrannu gormod o'r gyllideb i strwythurau cenedlaethol a rhanbarthol olygu nad oes digon o gyllid ar gael ar gyfer cyflawni lleol, lle mae capasiti eisoes dan bwysau. Pwysleisiodd y cyfranogwyr hefyd bwysigrwydd cyllid refeniw ar gyfer casglu, monitro a gwerthuso data, a cheisiwyd mwy o eglurder ganddynt ynghylch sut y byddai'r pedwar y cant sydd wedi'i frigdorri yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r swyddogaethau hyn.

Ystyriwyd bod llywodraethu cadarn, ymatebolrwydd lleol a chyfraniad ystyrlon gan y trydydd sector yn elfennau hanfodol o'r model cyflawni. Galwodd rhanddeiliaid am well cydlynu a dysgu o raglenni blaenorol er mwyn osgoi dyblygu a chymhlethdod diangen. Nodwyd bod cylchoedd cyllido tymor byr yn risg sylweddol, a allai gynyddu biwrocratiaeth a chyfyngu ar y gallu i gyflawni canlyniadau cynaliadwy. Daeth y

cyfranogwyr i ben drwy bwysleisio pwysigrwydd gwerthuso gwrthrychol a mesur effaith er mwyn sicrhau bod arferion da yn cael eu cofnodi, eu rhannu a'u cynnal.